Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
National Infrastructure Commission Wales



SAFBWYNTIAU AR SEILWAITH Y SECTOR ECONOMI GYLCHOL

CRYNODEB GWEITHREDOL

mewn partneriaeth â

ARCADIS

Comisiwn **Seilwaith** Cenedlaethol **Cymru**
National **Infrastructure** Commission **Wales**

Comisiynwyd Arcadis gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) i asesu anghenion seilwaith y presennol a'r dyfodol ar draws y sectorau ynni, dŵr, trafnidiaeth, digidol ac economi gylchol, ac i nodi'r materion allweddol i sylw Llywodraeth Cymru.

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar y Sector Economi Gylchol yng Nghymru gan amlinellu'r sefyllfa bresennol, heriau'r dyfodol a thynnu sylw at y materion allweddol y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen a nhw i helpu i hyrwyddo cylcholrwydd.

Mae gan Gymru uchelgeisiau polisi cryf ar gyfer yr Economi Gylchol, ond ar hyn o bryd mae'r cynnydd wedi'i gyfyngu gan gyflawniad tameidiog, cydnabyddiaeth o werth materol anghyson, a ffocws hanesyddol ar reoli gwastraff yn hytrach na chylcholrwydd systemig.

Er bod Cymru'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei harweinyddiaeth ym maes ailgylchu, mae cyflawni cyfraddau ailgylchu trefol o 68.4% (2024/25) yn cyfyngu ar gapasiti ailbrosesu, marchnadoedd eilaidd heb eu datblygu, ac olrhain data anghyson yn cyfyngu ar gadw gwerth a chreu swyddi.

MATERION A HERIAU CYFREDOL

Deunyddiau Trefol ac o Aelwydydd

- Mae llawer o ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu prosesu y tu allan i Gymru, gan golli gwerth economaidd a swyddi.
- Er bod cyfrannu at ailgylchu yn gryf, mae ailddefnyddio ac atgyweirio yn parhau i fod yn gyfyngedig.
- Nid oes gan Gymru gyfleusterau digonol ar gyfer ailddefnyddio ac ailbrosesu yn lleol.

Deunyddiau Diwydiannol ac Adeiladu

- Mae ailgylchu gwastraff adeiladu yn uchel, ond mae hyn yn bennaf i ddeunyddiau ailgylchu gradd isel ac ychydig iawn o gynnydd sydd o ran adfer deunyddiau gwerth uchel ac ailddefnyddio cydrannau.
- Mae Cymru'n dibynnu'n helaeth ar ddeunyddiau gweithgynhyrchu crai wedi'u mewnforio, ond mae'r trawsnewidiad ym Mhort Talbot yn nodi newid mawr.
- Mae defnydd o agregau wedi'u hailgylchu yn cael ei rwystro gan fylchau sicrwydd ansawdd a hyder isel gan ddefnyddwyr.
- Mae llai nag 1% o elfennau daear prin mewn gwastraff electronig yn cael eu hailgylchu.
- Ar hyn o bryd ychydig o ofynion ffurfiol sy'n gorfodi dylunio ar gyfer dadadeiladu, modiwlaredd, neu ddefnyddio deunyddiau wedi'u hadfer.
- Nid oes gan Gymru gyfleusterau ailbrosesu ac ailweithgynhyrchu ar raddfa fawr ar gyfer cynhyrchion adeiladu allweddol a ffrydiau gwastraff sy'n dod i'r amlwg fel batris.

Cylchrediad Cymunedol a Defnyddwyr

- Mae cylchoedd cyllido byr, ansicr yn cyfyngu ar fuddsoddiad tymor hir.
- Mae sgiliau atgyweirio ymarferol yn dirywio, yn enwedig mewn electroneg, dodrefn a thecstilau. Mae cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer hyfforddiant achrededig.
- Anaml y mae caffael sector cyhoeddus yn caniatáu manylu neu brynu nwyddau wedi'u hadnewyddu, gwasanaethau sy'n seiliedig ar atgyweirio, neu gynhyrchion wedi'u hailgynhyrchu.

BLE RYDYN NI AR HYN O BRYD

Mae cyfraddau ailgylchu yng Nghymru yn uchel Cafodd

68.4%

o wastra trefol ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2024/25

o'i gymharu â thua

50%

yn Lloegr

[1] Ble mae ch ailgylchu yn mynd? | Fy Ailgylchu Cymru

Mae cyfle enfawr i fwy o ddeunyddiau gael eu hailddefnyddio.

Mae

7.5%

o'r deunyddiau yn cael eu hailddefnyddio ledled y DU ar hyn o bryd.

[2] Adroddiad Bwlch Cylcholrwydd y Deyrnas Unedig

Mae cyfleusterau atgyweirio ac ailddefnyddio yn cynyddu ond mae angen cymorth pellach arnynt

Ar draws Cymru ar hyn o bryd, mae:

90 o gaffis trwsio

35 o siopau neu ganolfannau ailddefnyddio

[3] Caffi Trwsio Cymru (2025)

Mae cyfraddau ailgylchu o wastra adeiladu yn uchel

90%

yn 2019, o'i gymharu â 92% yn Lloegr, ond mae hyn yn bennaf oherwydd isgylchu.

[4] Cyfoeth Naturiol Cymru / Arolwg gwastraff adeiladu a dymchwel ar gyfer 2019

Gallai economi fwy cylchol gyflawni

£3.8 Biliwn

mewn GYC i Gymru.

[5] Cymru: Yn arwain y ffordd tuag at economi gylchol | WRAP Y Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau

Comisiwn **Seilwaith** Cenedlaethol **Cymru**
National **Infrastructure** Commission **Wales**

HERIAU'R DYFODOL

Bydd Cymru'n wynebu ystod o heriau wrth iddi ddatblygu ei Heconomi Gylchol, gan gynnwys:

1. Ehangu capasiti atgyweirio, ailddefnyddio ac ailbrosesu lleol.
2. Creu galw cryfach am gynhyrchion a gwasanaethau cylchol.
3. Gwella aliniad polisi ar draws y llywodraeth.
4. Ymgorffori caffael cylchol mewn contractau cyhoeddus.
5. Mynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn atgyweirio, archwiliadau, systemau digidol, a gweithredu.
6. Cryfhau olrhain deunyddiau a gwastraff digidol i gefnogi tryloywder.
7. Sefydlu capasiti ailbrosesu ar raddfa fawr.
8. Tyfu cadwyni cyflenwi domestig ym maes dur sgrap, agregau, deunyddiau critigol, a marchnadoedd ailddefnyddio.
9. Datblygu safonau, ardystio a llwybrau yswiriant ar gyfer ailddefnyddio mewn adeiladu a gweithgynhyrchu.
10. Gwreiddio egwyddorion cynllunio cylchol gan drawsnewid i ddata deunydd amser real a phasbortau cynhyrchion.
11. Rhagweld effeithiau gwydnwch hinsawdd ar seilwaith a chadwyni cyflenwi.
12. Adeiladu gwydnwch i bwysau economaidd a gwleidyddol allanol.

UCHELGAIS I'R DYFODOL

Erbyn 2050, dylai Cymru fod â'r nod o gael ei chydnabod fel arweinydd byd-eang ym maes seilwaith yr Economi Gylchol - trawsnewid gwastraff yn werth, creu swyddi gwyrdd, a diogelu adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dylai'r weledigaeth gyffredinol fod i ddeunyddiau gael eu cadw mewn defnydd cynhyrchiol cyn hired â phosibl, gan gefnogi economi wydn, carbon isel.

Uchelgeisiau a awgrymir:

- Dileu gwastraff y gellir ei osgoi erbyn 2050.
- Cyflawni 90% o ailgylchu trefol erbyn 2035, gan flaenoriaethu ailddefnyddio ac atgyweirio.
- Cael gafael ar 50% o ddeunyddiau newydd o ffrydiau eilaidd / a adferwyd erbyn 2040.
- Dylunio 10% o seilwaith newydd ar gyfer cylcholrwydd.
- Gwreiddio economi gylchol yn 100% o waith caffael sector cyhoeddus Cymru erbyn 2035.

GWEITHREDOEDD BLAENORIAETH

Mae'r adolygiad hwn wedi nodi map ffordd ac ystod o gamau gweithredu posibl i fynd i'r afael â'r materion a'r heriau hyn a chyflawni'r weledigaeth:

Datblygu Cynllun Seilwaith Cylchol Cenedlaethol sy'n nodi deunyddiau blaenoriaeth a lleoliadau canolfannau rhanbarthol. Cyfuno cyllid cyfalaf â buddsoddiad preifat trwy Gronfa Seilwaith Economi Gylchol.

Sefydlu Bwrdd Cyflawni Traws-Lywodraethol i alinio polisïau cynllunio, caffael, gwastraff a sgiliau.

Gorfodi meini prawf Economi Gylchol ym mhob contract adeiladu a seilwaith cyhoeddus.

Magu hyder y farchnad trwy safonau sicrwydd ansawdd, targedau cynnwys wedi'i ailgylchu, a chaffael cyhoeddus gwyrdd. Cefnogi rhwydweithiau symbiosis diwydiannol sy'n cysylltu cynhyrchwyr gwastraff â defnyddwyr terfynol.

Gweler y prif adroddiad am ragor o fanylion am gamau gweithredu ychwanegol a awgrymir sy'n ymwneud â data ac olrhain, sgiliau a gweithlu, newid ymddygiad a chyllid.

Comisiwn **Seilwaith** Cenedlaethol **Cymru**
National **Infrastructure** Commission **Wales**

I wybod mwy
sganiwch y cod QR.